`Y Gwir yn Erbyn y Byd!`

# Seren Tan Gwmwl

Rhif 7
Haf 1998

ffansin hanes annibynnol !

£1




## Pwy yw gwir enillwyr `cwpan y byd`?

Seren Tan Gwmwl - 7 Ffynnon Jôb, Caerfyrddin, SA31 3HG (01267 233 588)
Y Ffalt, Clwb Dewi Sant, Eastgate, Aberystwyth (01970 615 051)

S AND MUSIC BY
TRUMMER/MICK JONES

# BORED WITH THE U.S.A

E

DYMA`R NEGES .... Mae`r rhifyn hwn o *Seren Tan Gwmwl* yn cyfeirio llawer at wir enillwyr `Cwpan y Byd`, Unol Daleithiau`r America, ac yn arbennig gweithgareddau adran derfysg ryngwladol y wlad, y CIA. Gellid olrhain sut gyrhaeddodd America y safle o hegemoni rhyngwladol drwy edrych yn ôl mor bell â`r 18fedG. Bryd hynny datblygwyd syniadau economaidd rhyddfrydol wnaeth esgor ar gyfalafiaeth ac imperialaeth. Bryd hynny hefyd rheibiwyd trysorau ac adnoddau`r byd gan gwmniau masnachol Prydeinig ac Ewropeaidd. Y gystadleuaeth yma wnaeth greu`r amgylchiadau ar gyfer cyflafan 1914-1918. Wedi hynny, trodd oes newydd o ffyniant diddiwedd Henry Ford yn Ddirwasgiad Mawr y 1930`au, a chyfrannodd hyn at dwf Natsiaieth a ddilynwyd gan Gyflafan Mawr 1939-1945. Cipiwyd y

Y buddugwyr yn yr Ail Ryfel Byd oedd America. Cipiwyd y cwpan yng Ngorffennaf 1944 yn nhrafodaethau Breton Woods, ble sicrhaodd America reolaeth dros farchnadoedd Ewrop, a gwnaethant yn siwr bod cymorth Cynllun Marshall yn cael ei dalu nôl gyda chyfraddau llôg afresymol o uchel. Yn bwysicach sefydlwyd Banc y Byd a`r IMF yn yr un gynhadledd, fel arfau yn y Pax Americana diderfyn. Cryfhawyd eu safle drwy sefydlu Banc Datblygu Asia, Banc Datblygu Affrica, a Banc Datblygu` Americas. Roedd dylanwad ar rhain, fel yr IMF a Banc y Byd, yn dibynnu ar faint o arian oedd yn cael ei roi mewn gan bob gwlad.

I'M SO BORED — WITH THE

Y BWRDD GOLYGYDDOL



Golygyddion: Daniel Davies
Owen Llywelyn
John Tillman
(o`r chwith i`r dde)

HE CAN'T AFFORD A BAG—
SE-VEN DAYS A WEEK —

Canlyniad hyn i gyd yw y galluogodd America i ddylanwadu ar bwy oedd yn rheoli gwledydd - gyda dylanwad economaidd daeth dylanwad gwleidyddol. Mae`r rhifyn hwn yn dangos yr effaith trychinebus ar wledydd fel Chile, Zaire, Dwyrain Timor a Phrydain. Mae dylanwad America wedi effeithio ar ryddid, hawliau sifil, a hawliau gweithwyr - gweler yr erthyglau ar weithwyr o Lerpwl i Fachynlleth. Mae`r rhifyn hwn hefyd yn talu teyrnged i`r bobl arwrol hynny sydd wedi gwrthod derbyn gorthrwm eu meistri, sy`n gweithredu fel pypedau America a`r IMF. Y bobl hynny sydd, yng ngeiriau Xanana, arweinydd dewr pobl Dwyrain Timor YN GWRTHSEFYLL I ENNILL.

# Y TALIFANS

Mae Seren Tan Gwmwl yn datgelu heddiw bod sect peryglus yn ceisio *brainwasho* meddyliau y genedl - y Talifans. Mae grwpiau o gyn-fyfyrwyr wedi cael eu recriwtio gan y sect, dan arweiniad sisnistr y Talifan Mawr. Mae modd eu handabod oherwydd eu siwtiau swanc, sbectolau ymyl oherwydd eu siwtiau swanc, sbectolau ymyl lliw a *filofaxes*. Yn wahanol i`w brodyr yn Afghanistan - y Taliban - mae`r Talifans yr llawer mwy peryglus a sinistr


Y Talifans yw penaethiaid yr adran Radio Shi-ite, yn Caerbull. Mae eu polisiau yn cynnwys gwahardd rhaglenni o safon ar y teledu, a sicrhau eu bod yn tawelu pob gwrthwynebiad wrth yr *infidels* sydd ddi yn addoli Allah Glynne Jones.



Y Talifan Mawr gyda`r Ayatollah




Dywedodd y Talifan Mawr `*It`s a people thing*`. Dyw`r Talifan ddim yn atebol i neb heblaw yr Ayatollah. Dywedir bod y gwrthdaro hyd yn hyn wedi golygu colledion enfawr i ddiwylliant Cymrae



Jim Parcnest - Mad Mullah



Ray Gravell - Sad Mullah



Gerd Muller - Gerd Mullah



# Yn Santiago yn `73

25 mlynedd i eleni, yn 1973 bu farw unig Arlywydd Comiwnyddol Chile - Dr Salvador Allende Gossens. Mae hanes El Presidente yn un o frwydr arwrol i weithio dros wella safonau byw pobl gyffredin Chile, a hynny yn wyneb *sabotage* a phob math o *shenanigans* gwrth-ddemocrataidd gan fraich derfysgol Arlywydd Unol Daleithiau`r America, y CIA. Am dair mlynedd bu Salvador Allende yn Arlywydd democrataidd ar Chile, tan iddo gael ei ladd mewn *coup* ar Fedi 11, 1973, oedd yn cael ei arwain gan y llofrudd General Augusto **Pinochet** Ugarte - ffasgydd marchnad rydd oedd yn cael cefnogaeth Kissinger ac America, yn ogystal â bod yn un o gyfeillion mawr Thatcher.

Mae hanes cynnar Allende yn debyg iawn i hanes yr arch-chwyldroadwr Che Guevara - daeth o gefndir dosbarth canol, a chafodd addysg brifysgol yn astudio i fod yn feddyg. Fel gyda Che gwelodd Allende y tlodi a`r dioddefaint oedd yn cael ei achosi i bobl ei wlad gan gyfalafiaeth: yn wahanol i Che, credai Allende mai defnyddio`r system ddemocrataidd oedd yr ateb i`r broblem yn Chile, nid ei dymchwel.




Tra`n astudio ym Mhrifysgol Chile yn 1932 daeth Allende yn amlwg am ei syniadau Marcsaidd, ac yn 1933 bu`n un o`r rhai aeth ati i sefydlu Plaid Sosialaidd Chile. Cafodd ei ethol i`r Gyngres yn 193 a rhwng 1939 ac 1942 bu`n Weinidog Iechyd mewn clymblaid asgell chwith. Yn 1945 cafodd ei ethol i Senedd y wlad. Safodd am Arlywyddiaeth Chile bed. gwaith: yn 1952 daeth yn olaf, a safodd eto gyda chefnogaeth Sosialwyr a Chomiwnyddion yn 1958, gan ddod yn agos i ennill yr etholiad. Collodd eto yn 1964. Yn 1970 enillodd Allende 36.3% o`r bleidlais boblogaidd mewn râs dair ffordd, ac ar Dachwedd 3 daeth yn Arlywydd Chile.


Yn wahanol hefyd i nifer o bobl oedd yn galw`u hunain yn `Gomiwnyddion` roedd Allende yn credu`n gryf mewn hawliau sifil, ac yn parchu democratiaeth. Credai mewn sosialaeth wrth bob dosbarth cymdeithasol, ar gyfer pawb - ac nid oedd yn credu`n biwritanaidd yn syniadau Marx. Beirniadodd Allende aelodau Plaid Gomiwnyddol ei wlad am fethu addasu syniadau Marx i sefyllfa arbennig Chile, a dywedodd eu bod yn rhy ideolegol, a`u bod yn poeni gormod am syniadau, a dim digon am bobl gyffredin. Serch hynny, roedd yn casau imperialaeth economaidd a gwleidyddol America, ac yn gweld rhain fel y gwraidd i broblemau pobl Chile.



Rhwng 1970 ac 1973 cafwyd rhaglen ddiwygio gan Allende oedd yn debyg iawn i`r hyn wnaeth Castro Cuba pan ddaeth yn arweinydd yn 1959. Gwladolo y gweithfeydd copr, daeth â sancsiynau economaid erbyn Cuba i ben, prynodd nifer o ddiwydiannau pwysig. Aeth hefyd ati i ail-ddosbarthu cyfoeth trw rewi prisiau a chodi cyflogau, ac ail-gychwynodd y berthynas â China a Cuba. Er bod ei bolisiau wedi arwain at chwyddiant aruthrol o fewn Chile - roedd wedi`r cwbl yn cyfaddef nad economeg oedd un o`i gryfderau - llwyddodd Allende i ennill cefnogaeth y bobl gyffredin. Yn etholiadau`r Gyngres yn 1973 sicrhaodd ei gefnogwyr 44% o`r bleidlais.


Roedd syniadau Allende yn wahanol iawn i rai Comiwnyddion amlwg eraill - yn gyntaf doedd ganddo ddim diddordeb o gwbl mewn economeg, ac roedd yn teimlo`n emosiynol am ddioddefaint gwerin ei wlad. Credai mewn creu **Ffordd Chileaidd at Sosialaeth**, a gwelai nad oedd modd bod yn ideolegol yn y frwydr yn erbyn cyfalafiaeth ac imperialaeth America gan bod amodau unigryw yn bodoli ym mhob gwlad. Tra`n Weinidog Iechyd roedd wedi gweld sut roedd pobl ei wlad yn gorfod byw, gyda diffyg bwyd, alcoholiaeth, marwolaethau plant, tai gwael, anllythrennedd, ac ecspolitio di-ddiwedd gan gwmniau cyfalafol rhyngwladol.

Serch hynny, roedd nifer o bobl yn anfodlon gyda`r hyn yr oedd wedi cyflawni. Roedd y dosbarth canol yn protestio ar y strydoedd, a`r fyddin yn aflonyddu. Roedd hefyd wedi llwyddo i ddigio America. Ar Fedi 11, 1973 bu farw Allende. Mae rhai`n dweud iddo saethu ei hun yn ystod y *coup* milwrol dan arweiniad Pinochet, tra bod eraill yn dweud ei fod wedi cael ei saethu. Daeth y cyfnod mwyaf gobeithiol yn hanes Chile i ben, ac arweiniodd at 17 mlynedd ddu dan arweiniad y llofrudd Pinochet.




MAE STORI ALLENDE, AC YN ARBENNIG SU DDAETH EI GYFNOD FEL ARLYWYDD I BEN YN UN PENNOD CYWILYDDUS ARALL YN HANES YMYRRAETH Y CIA YM MATERION MEWNOL GWLEDYDD ERAILL. GWLEDYDD OEDD WEDI DEWIS FFORDD WAHANOL O FYW I UN AMERICA, AC OEDD FELLY, YN `DARGED CYFREITHLON` I DERFYSG RHYNGWLADOL AC IMPERIALAETH AMERICA.


Bu`r CIA yn cynnal diddordeb gweithredol ym materion mewnol Chile mor bell yn ôl ag 1962. Yn y flwyddyn honno sefydlodd John F Kennedy *Special Group 5412* er mwyn ceisio dylanwadu ar yr etholiad arlywyddol fyddai`n cael ei gynnal yn 1964. Erbyn 1964 roedd Mr Vietnam ei hun, Lyndon B Johnson yn Arlywydd America, ac roedd y CIA yn gwario $2.6 miliwn ar y dasg o geisio trechu Allende yn yr etholiad.



Ar ôl llwyddo i drechu Allende yn `64 dechreuodd y CIA baratoi yn syth ar gyfer yr etholiadau arlywyddol nesaf yn 1970. Erbyn hyn roedd Kissinger â`i fys yn y cawl - doedd Kissinger ddim yn credu bod modd i Allende ennill etholiadau 1970, a chafodd sioc pan lwyddodd Allende i wneud hynny. Mae ymateb enwog Nixon pan glywodd am fuddugoliaeth Allende yn dweud y cyfan, ac wedi cael ei gofnodi gan nifer o bobl oedd yn y cyfarfod hwnnw gyda`r Arlywydd, gan gynnwys Kissinger ei hun, a phennaeth y CIA Richard Helms.

**1 in 10 chance perhaps, but save Chile! Worth spending - not concerned with risks involved. No involvement of Embassy. $10,000,000 available - more if necessary. Full time job. Best men we have. Game plan - MAKE THE ECONOMY SCREAM!!**


Aeth America - y wlad `ddemocrataidd` fwyaf yn y byd - ati i drefnu ymgyrch yn erbyn Allende, y dyn oedd wedi cael ei ethol yn Arlywydd democrataidd gan ei bobl. Dywedodd Nixon *`Os yw`r Comiwnyddion yn rhoi arian i gefnogi pleidiau gwleidyddol, rwy`n credu y dylai`r US wneud yr un peth, a gwneud hynny`n gyfrinachol fel ei fod yn effeithiol`*. Dechreuwyd ymgyrch bropaganda yn erbyn Allende, a`r hyn roedd Nixon yn galw`n *Track 1* yn y frwydr, sef ceisio troi pobl Chile yn erbyn Allende.



Roedd *Track 1* yn cynnwys anfon newyddiadurwyr i Chile oedd yn gweithio`n uniongyrchol i`r CIA, a recriwtiwyd a hyffroddwyd dros 20 newyddiadurwr o 10 gwlad gwahanol. Ar yr un pryd apeliodd America ar Eduardo Frei, arweinydd Plaid Chile o`r Democratiaid Cristnogol, ac i roi pwysau ychwanegol ar Frei trefnodd y CIA bod aelodau blaenllaw o`r Eglwys Gatholig o`r Almaen a`r Eidal yn ymweld ag ef. Pan fethodd yr ymdrechion hyn i gyd, doedd dim byd ar ôl ond *Track 2*, sef defnyddio grym i gael gwared ar Allende. Dywedodd yr arch-derfysgwr rhyngwladol Henry Kissinger... ***`I don`t see why we need to stand by and watch a country go communist because of the irresponsibility of its own people`***.

Erbyn 1972 roedd Nixon wedi colli diddordeb yn Chile - wedi`r cyfan roedd yn brwydro yn erbyn cyhuddiadau Watergate, ac roedd digon ar ei blat. Wnaeth hyn ddim atal Kissinger serch hynny, ac o`r cyfnod hwn ymlaen roedd Kissinger yn arwain a rheoli digwyddiadau yn Chile. Trefnodd bod byddin Chile yn arwain *coup* yn erbyn Allende. Roedd cysylltiad agos rhwng General Pinochet a`r CIA - pan lwyddodd y coup ar Fedi 11 1973, roedd Pinochet yn adrodd yn ôl yn unuiongyrchol i swyddogion y CIA yn Chile. Mae William Colby ei hun yn dweud yn 1994 *`Roedd attaches milwrol America ar faes y gâd gyda unedau o fyddin Chile, ac roedden nhw`n cymryd rhan yn y coup`*.

Arweiniodd y *coup* at 17 mlynedd o reolaeth gan Pinochet. Ffasgydd milwrol oedd Pinochet, a daeth yn enwog drwy`r byd o fewn dim amser am ddienyddio a llofruddio pobl yn eu miloedd, llosgi llyfrau *Nazi-style*, a phoenydio. Roedd hefyd yn gyfrifol am agor marchnadoedd Chile i gael eu hecsploitio gan gwmniau cyfalafaol rhyngwladol, a chyflwyno marchnad rydd heb ddim rheolaeth, gan greu bwlch enfawr rhwng y tlawd a`r cyfoethog. Roedd yn gyfaill agos i Thatcher hefyd!



Voodoo Chile...
Y CIA lan i`w
Hen-drics.



It`ll Allende`n tears

Mae Seren Tan Gwmwl yn cofio Salvador Allende. Mae hefyd yn cofnodi *sabotage* America o wasg rydd, etholiadau rhydd, ac economi Chile. A phan fethodd rhain i gyd, o`u defnydd o rym a thrais yn erbyn arweinydd democrataidd. Pan oedd Pinochet a bwledi Washington yn bomio palas arlywyddol Chile, dywedodd Salvador Allende....

`Wna i ddim ymddiswyddo. Wna i ddim. Rwy`n fodlon gwrthsefyll gyda phob dull posib, hyd yn oed os yw`n golygu colli fy mywyd, fel bod hyn yn wers yn hanes gwarthus y rhai sydd â grym, ond sydd heb y gallu i ymresymu`.